# Atodiadau Aseiniad 7004

1. Ffurflen foeseg.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

FFURFLEN PG2 / E1

## CAIS AM GYMERADWYAETH FOESEGOL

| |
|---|
| **MYFYRWYR YMCHWIL YN UNIG**<br>Mae'r ffurflen hon i'w chwblhau gan y myfyriwr o fewn **CHWE** mis yn achos myfyrwyr llawn amser a **DEUDDEG** mis yn achos myfyrwyr rhan amser, ar ôl cychwyn y radd ymchwil neu ar ôl dilyniant i Ran Dau eich cwrs.<br><br>Ar ôl ei chwblhau, cyflwynwch y ffurflen hon trwy'r **Porth Coleg Doethurol ar MyTSD** (https://mytsd.uwtsd.ac.uk).<br><br>Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg. |
| **MYFYRWYR YMCHWIL A STAFF YN UNIG**<br>Wrth brosesu'r cais hwn rhaid cyflwyno pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais yn ysgrifenedig a'i hanfon drwy e-bost i pgresearch@uwtsd.ac.uk, gyda'r teitl 'Cymeradwyaeth Foesegol' a'ch enw i ddilyn. |
| Dylai **MYFYRWYR AR RAGLENNI ISRADDEDIG NEU RAGLENNI MEISTR A ADDYSGIR** gyflwyno'r ffurflen hon (a chael y canlyniad) trwy systemau a eglurir i chi gan y goruchwyliwr/ arweinydd modwl. |

**Er mwyn i fudd ddeillio o ymchwil ac i leihau'r risg o niwed, mae'n rhaid ei gynnal yn foesegol. Mae'n bosibl na fydd ymchwilydd wedi'i ddiogelu gan yswiriant y Brifysgol os na chafwyd cymeradwyaeth foesegol cyn cychwyn.**

Mae'r Brifysgol yn dilyn diffiniad yr OECD o **weithgarwch ymchwil** a geir yn llawlyfr Frascati: "gwaith creadigol a gyflawnir mewn modd systematig er mwyn cynyddu'r stôr o wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am ddyn, diwylliant a chymdeithas, a'r defnydd o'r stôr hon o wybodaeth i lunio cymwysiadau newydd" Yn hynny o beth, mae hyn yn cwmpasu gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r staff, myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, a myfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig a addysgir sy'n gweithio ar draethodau hir/prosiectau.

Gelwir yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch ymchwil yn "brif ymchwilydd".

Nid oes angen cymeradwyaeth foesegol ar gyfer archwiliadau arferol, adolygiadau perfformiad, astudiaethau sicrhau ansawdd, profion o fewn gofynion addysgol arferol, a beirniadaeth lenyddol neu artistig.

**Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd cyn cwblhau HOLL adrannau'r ffurflen.**

**Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i chymeradwyo cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ymchwil.** Gweler y Rhestr Wirio am fanylion y broses ar gyfer categorïau gwahanol o geisiadau.

**ADRAN A: Amdanoch Chi (Prif Ymchwilydd)**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Enw Llawn: | | Phoebe Nancy Morgan | | | | |
| 2 | Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol: | | Aelod o'r staff: | ☐ | Cymrawd ymchwil anrhydeddus: | ☐ |
| | Myfyriwr Israddedig | ☐ | Myfyriwr Ôl-raddedig a Addysgir | ☒ | Myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Athrofa/Disgyblaeth Academaidd/Canolfan: | Yr Athrofa |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Campws: | Abertawe |
| 5 | Cyfeiriad e-bost: | 1605901@student.uwtsd.ac.uk |
| 6 | Rhif Ffôn Cyswllt: | 07494968306 |
| | ***I fyfyrwyr:*** | |
| 7 | Rhif y Myfyriwr: | 1605901 |
| 8 | Rhaglen Astudio: | TAR Uwchradd Cerddoriaeth |
| 9 | Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr: | Sioned Hughes |

**ADRAN B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A yw'r gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor?<br>(gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ynglŷn â'r broses gymeradwyo briodol ar gyfer lefelau ymchwil gwahanol gan gategorïau gwahanol o unigolion) | **YDY** | ☒ | **NAC YDY** | ☐ |
| | | | | ***Dyddiad*** | |
| 2 | Os Ydy, nodwch ffynhonnell y gymeradwyaeth (a'r dyddiad os yw'n wybyddus) ***Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth mewn egwyddor gan y ffynhonnell berthnasol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol*** | Pwyllgor Graddau Ymchwil | ☐ | | |
| | | Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa | ☐ | | |
| | | Arall (noder)<br>Sioned Hughes | ☒ | **14/03/24** | |

**ADRAN C: Deunyddiau Cyfarwyddyd Moesegol Mewnol ac Allanol**

| | | |
|---|---|---|
| | Rhestrwch y dogfennau cyfarwyddyd moesegol craidd y cyfeiriwyd atynt wrth gwblhau'r ffurflen hon (gan gynnwys unrhyw godau moeseg ymchwil penodol i'r ddisgyblaeth, codau moeseg ymchwil penodol i'r lleoliad, a hefyd unrhyw ganllawiau moesegol penodol yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig). Ticiwch i gadarnhau fod eich cynnig ymchwil yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau hyn. Gallwch ychwanegu rhesi i'r tabl hwn os oes angen. | |
| 1 | **Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS** | ☒ |
| 2 | **Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS** | ☒ |
| 3 | Canllawiau BERA 'Ethical Guidelines for Educational Research' (2018) Linc:<br>https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018<br>COD Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor Gweithlu Addysg (2022) Linc:<br>https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga<br>International Charter for Ethical Research Involving Children (2013) Linc:<br>https://childethics.com/charter/#:~:text=The%20International%20Charter%20for%20Ethical,all%20children%20involved%20in%20research. | ☒ |

**ADRAN D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol**

Os oes cydweithwyr allanol yna dylech gael caniatâd gan y bobl gyswllt i rannu eu data personol gyda'r brifysgol. Os nad oes cydweithwyr allanol yna gadewch yr adran hon yn wag a symud ymlaen i adran E.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sefydliad | |
| 2 | Enw'r person cyswllt | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Cyfeiriad e-bost y person cyswllt | | | | | |
| 4 | Ydy eich ymchwil yn cael ei ariannu'n allanol? | | YDY | ☐ | NAC YDY | ☐ |
| 5 | Ydych chi'n derbyn ysgoloriaeth KESS? | | YDW | ☐ | NAC YDW | ☐ |
| 6 | Ydych chi wedi'ch cyflogi'n benodol i ymgymryd â'r ymchwil hwn naill ai am dâl neu'n wirfoddol? | Gwirfoddol | YDW | ☐ | NAC YDW | ☐ |
| 7 | | Cyflogedig | YDW | ☐ | NAC YDW | ☐ |
| 8 | A yw'r ymchwil yn cael ei wneud o fewn un o Bartneriaethau Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) PCYDDS sy'n bod yn barod? | Os YDY yna nid oes angen ateb y cwestiwn caniatâd isod. | YDY | ☐ | NAC YDY | ☐ |
| 9 | A oes caniatâd i ymgymryd â'r ymchwil wedi'i roi gan y sefydliad partner? | (Os OES atodwch gopi) Os NA ni all y cais fynd yn ei flaen | OES | ☐ | NAC OES | ☐ |

**Pan fo'r gweithgarwch ymchwil yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â sefydliad allanol**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | A oes gan y sefydliad hwn ei system cymeradwyaeth foesegol ei hun? | OES | ☐ | NAC OES | ☐ |
| | Os Oes, atodwch gopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu gymeradwyaeth interim) gan y sefydliad (gall hwn fod yn gopi o e-bost os yw'n briodol). | | | | |

**ADRAN E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Teitl dangosol: | Beth yw canfyddiadau blwyddyn 7 ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol mewn gwersi cerddoriaeth? | | |
| 2 | Dyddiad cychwyn arfaethedig: | 8fed o Ebrill | Dyddiad gorffen arfaethedig: | 31ain o Orffenaf |
| | **Cyflwyniad i'r Ymchwil (uchafswm o 300 o eiriau i bob adran)**<br>**Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu ar gyfer <u>Cynulleidfa Anarbenigol</u> wrth amlinellu eich ymateb i'r pwyntiau isod:**<br>• *Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil*<br>• *Cwestiwn Ymchwil Arfaethedig*<br>• *Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil*<br>• *Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil*<br>Dangoswch, yn gryno, sut mae **<u>Ymchwil Cyfredol</u>** wedi arwain y gweithgarwch arfaethedig ac esboniwch<br>• *Beth fydd y gweithgarwch ymchwil yn ei ychwanegu at y corff gwybodaeth*<br>• *Sut mae'n mynd i'r afael â maes o bwys.* | | | |
| 3 | **Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil**<br>• Pwrpas yr archwiliad yw i archwilio canfyddiadau blwyddyn saith ac athrawon ar y defnydd o gerddoriaeth gefndir er mwyn hybu ymgysylltiad yn eu gwersi.<br>• Gobeithiaf ddarganfod wrth gynnal y prosiect yma sut mae'r defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn effeithio ar ymgysylltiad ac ymddygiad dysgwyr yn y dosbarth.<br>• Pwrpas arall yw datblygu ymhellach fy sgiliau ymchwil personol fel ymchwilydd medrus a moesegol<br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) | | | |
| 4 | **Cwestiwn Ymchwil**<br>Beth yw canfyddiadau blwyddyn 7 ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol mewn gwersi cerddoriaeth? | | | |

| | |
|---|---|
| | (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) |
| 5 | **Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil**<br>- Nod y prosiect ymchwil yma bydd i ddarganfod beth yw canfyddiadau blwyddyn saith ac athrawon ar y defnydd o ddefnyddio gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi cerddoriaeth.<br><br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) |
| 6 | **Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil**<br>- Cynnal adolygiad llenyddiaeth ar ddefnyddio cerddoriaeth gefndirol ar gyfer hybu cymhelliant ac ymddygiad dysgwyr.<br>- Dosbarthu holiadur i un dosbarth o ddysgwyr blwyddyn 7 er mwyn canfod eu barn ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi.<br>- Arsylwi ymateb dysgwyr blwyddyn 7 mewn gwersi gyda cherddoriaeth gefndirol.<br>- Cynnal cyfweliad gyda athrawon sy'n addysgu cerddoriaeth i ofyn eu barn ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol mewn gwersi er mwyn hybu ymgysylltiad dysgwyr<br>- Dadansoddi a syntheseiddio'r data a gasglwyd drwy ddefnyddio'r offer ymchwilio a defnyddio'r casgliadau er mwyn er mwyn canfod ymyrraeth i'w defnyddio fel y camau nesaf o ran fy arfer proffesiynol fel darpar-athrawes.<br><br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) |
| | **Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau)**<br><br>Rhowch grynodeb byr o'r holl ddulliau y **gellid** eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny. Nid oes angen i chi gyfiawnhau'r dulliau yma, ond yn hytrach dylech ddisgrifio sut rydych chi'n bwriadu casglu'r data sydd eu hangen i gwblhau eich prosiect. |
| 7 | **Astudiaeth achos:** Byddaf yn defnyddio Astudiaeth Achos Archwiliadol i ddylunio fy ymholiad proffesiynol. Pwrpas astudiaeth achos yw casglu data a datblygu dealltwriaeth drwy archwilio agweddau o'r prif maes mewn manylder. Byddaf yn archwilio beth yw canfyddiadau blwyddyn saith ac un neu ddau athro/athrawes ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi cerddoriaeth. Mae yna ddwy ran I Astudiaeth Achos, sef y 'gwrthrych' (pwrpas yr Astudiaeth Achos) a'r pwnc (subject). Yn fy astudiaeth achos, y pwrpas ydy archwilio'r defnydd o gerddoriaeth gefndirol yng ngwersi cerddoriaeth. Y pwnc ydy dosbarth o ddysgwyr blwyddyn saith mewn un ysgol uwchradd, ac un neu ddau athro.<br><br>**Cyfweliad:** Er mwyn canfod barn yr athrawon adran gerddoriaeth ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi, byddaf yn cynnal cyfweliad gyda nhw. Un mantais o gynnal cyfweliadau yw eu bod yn darparu esboniad, dealltwriaeth ac yn archwilio barn pynciau ymchwil, ymddygiad a phrofiadau'r cyfranogwyr. Bwriad y cyfweliad yma yw i gasglu gwybodaeth wrth y gyfranogwyr er mwyn deall eu barn nhw am ddefnyddio gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi nhw. Byddaf yn defnyddio cyfweliad lled-strwythuredig, a fydd yn cynnwys paratoi rhai cwestiynau o flaen llaw, prif cwestiynau ac is-gwestiynau.<br><br>**Holiadur:** Byddaf yn dosbarthu holiadur i rhwng 28-30 o ddisgyblion blwyddyn saith o'r un dosbarth er mwyn canfod eu barn â'u teimladau tuag at y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi cerddoriaeth. Byddaf yn llunio'r holiadur ar Microsoft Forms sydd yn gost effeithiol a hefyd yn sicrhau anhysbysrwydd y cyfranogwyr. Bydd hyn yn ei tro yn sicrhau bod y cyfranogwyr yn ateb y cwestiynau yn onest. Byddaf yn defnyddio cyfuniad o gwestiynau caeedig ac agored er mwyn casglu ystod eang o ddata gwreiddiol. |

| | |
|---|---|
| | **Arsylwad:** Byddaf yn arsylwi ar un wers cerddoriaeth gyda'r un dosbarth a fyddaf yn dosbarthu'r holiadur. Pwrpas yr arsylwad yma bydd arsylwi ymatebion y dysgwyr, eu cymhelliant a'u hymddygiad wrth ddefnyddio cerddoriaeth gefndirol yn y wers.<br><br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) |
| | **Lleoliad y gweithgarwch ymchwil**<br>Nodwch yr holl leoliadau lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil. |
| 8 | Cynhelir y gweithgarwch ymchwil yma yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ne orllewin Cymru ble rwyf yn gwneud fy mhrofiad addysgu proffesiynol.<br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) |
| | **Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU**<br>Os cynhelir gweithgarwch ymchwil dramor, chi sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag ystyriaethau moesegol lleol ac y ceisir y caniatâd perthnasol. Nodwch unrhyw ganllawiau lleol sy'n bodoli (e.e. gan gymdeithasau proffesiynol lleol/cymdeithasau dysgedig/prifysgolion) a nodwch a yw'r rhain yn cynnwys amodau moesegol y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn y DU (rhowch fanylion unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen). Yn ogystal nodwch a oes unrhyw faterion moesegol penodol yn codi yn sgil y cyd-destun lleol lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil, er enghraifft, materion diwylliannol a/neu gyfreithiol sensitif neu achosion lle mae'r cyfranogwyr yn agored i niwed. Os ydych chi'n byw yn y wlad ble byddwch yn gwneud yr ymchwil yna nodwch hyn. |
| 9 | *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau **NAD** ydynt ar gael yn gyhoeddus? | **NAC OES** | ☒ |
| | | **OES** | ☐ |
| 11 | Os Oes, rhowch fanylion yma o'r modd y byddwch yn cael mynediad at ddogfennaeth benodol nad yw ar gael yn gyhoeddus a bod hyn yn unol â chyfraith diogelu data gyfredol y wlad dan sylw a Chymru a Lloegr.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |

| | A yw eich ymchwil yn ymwneud ag un neu fwy o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|---|
| 12 | Cymru lewyrchus | ☐ | ☒ |
| 13 | Cymru gydnerth | ☐ | ☒ |
| 14 | Cymru iachach | ☐ | ☒ |
| 15 | Cymru sy'n fwy cyfartal | ☐ | ☒ |
| 16 | Cymru o gymunedau cydlynus | ☐ | ☒ |
| 17 | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ☒ | ☐ |
| 18 | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | ☐ | ☒ |
| 19 | Os atebwyd YDY i unrhyw rai o'r uchod, rhowch fanylion: | | |
| | | | |

| | |
|---|---|
| | Byddaf yn cynnal pob elfen o'r prosiect ymchwil yma trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda pob dysgwr ac athro/athrawes.<br><br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) |

**ADRAN F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil**

| | **A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys:** | **BYDD** | **NA FYDD** |
|---|---|---|---|
| 1 | Defnyddio holiadur neu offeryn ymchwil tebyg? | ☒ | ☐ |
| 2 | Defnyddio cyfweliadau? | ☒ | ☐ |
| 3 | Defnyddio grwpiau ffocws? | ☒ | ☐ |
| 4 | Defnyddio dyddiaduron cyfranogwyr? | ☐ | ☒ |
| 5 | Defnyddio recordiadau fideo neu sain? | ☐ | ☒ |
| 6 | Defnyddio ffeiliau log a gynhyrchir gan gyfrifiadur? | ☐ | ☒ |
| 7 | Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau'n ymwybodol o hynny? | ☒ | ☐ |
| 8 | Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau ddim yn ymwybodol o hynny? | ☐ | ☒ |
| 9 | Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol heb gydsyniad penodol y cyfranogwyr? | ☐ | ☒ |
| 10 | Defnyddio unrhyw gwestiynau, ysgogiadau prawf neu gyflwyniad a allai, ym mhrofiad rhai, achosi niwed / tramgwydd corfforol, meddyliol neu emosiynol? | ☐ | ☒ |
| 11 | Cyflawni unrhyw weithredoedd a allai achosi embaras neu effeithio ar hunan-barch? | ☐ | ☒ |
| 12 | Ymchwilio i gyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon? | ☐ | ☒ |
| 13 | Defnyddio gweithdrefnau sy'n cynnwys twyll? | ☐ | ☒ |
| 14 | Rhoi unrhyw sylwedd, cyfrwng neu blasebo? | ☐ | ☒ |
| 15 | Gweithio gydag anifeiliaid fertebraidd byw? | ☐ | ☒ |
| 16 | Gweithdrefnau a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd? | ☐ | ☒ |
| 17 | Dulliau eraill o gasglu data gwreiddiol.<br>Nodwch y math o ddull(iau) casglu data isod. | ☐ | ☒ |
| | Manylion unrhyw ddulliau eraill o gasglu data gwreiddiol:<br><br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) | | |

Os atebwyd NA FYDD i bob cwestiwn, yna mae'r gweithgarwch ymchwil yn isel ei risg (yn foesegol) a **gall** fod wedi'i eithrio rhag **rhai** o'r adrannau canlynol (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd).

Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, ni ddylid ymgymryd â gweithgarwch ymchwil tan y ceir cymeradwyaeth foesegol lawn.

**ADRAN G: Cyfranogwyr Arfaethedig**

Os nad oes cyfranogwyr, peidiwch â llenwi'r adran hon, ond ewch yn uniongyrchol i adran H.

| | **Pwy yw'r cyfranogwyr arfaethedig:** | **IE** | **NA** |
|---|---|---|---|
| 1 | Myfyrwyr neu staff yn y Brifysgol? | ☐ | ☒ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Oedolion (dros 18 oed ac sy'n gymwys i gydsynio)? | ☒ | ☐ |
| 3 | Oedolion agored i niwed? | ☐ | ☒ |
| 4 | Plant a Phobl Ifanc dan 18 oed? (Bydd angen cydsyniad Rhiant, Gofalwr neu Warcheidwad) | ☒ | ☐ |
| 5 | Carcharorion? | ☐ | ☒ |
| 6 | Troseddwyr ifanc? | ☐ | ☒ |
| 7 | Y rhai y gellid ystyried bod ganddynt berthynas arbennig o ddibynnol â'r ymchwilydd neu gyfryngwr (*gatekeeper*)? | ☐ | ☒ |
| 8 | Pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon? | ☐ | ☒ |
| 9 | Eraill. Nodwch y cyfranogwyr isod ac, yn benodol, unrhyw grŵp nad ydynt efallai'n gallu rhoi cydsyniad). | ☐ | ☒ |
| | Manylion unrhyw grwpiau cyfranogwyr eraill:<br><br>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio) | | |

| | **Niferoedd a ffynhonnell y cyfranogwyr**<br>Rhowch amcangyfrif o'r nifer disgwyliedig o gyfranogwyr. Sut byddwch chi'n canfod cyfranogwyr a sut cânt eu recriwtio? | |
|---|---|---|
| 10 | Faint o gyfranogwyr a ddisgwylir? | Tua 32<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |
| 11 | Pwy fydd y cyfranogwyr? | Bydd yna cyfweld 2 athro yr adran Gerddoriaeth<br><br>Dosbarthu holiadur i 30 o ddysgwyr blwyddyn 7.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |
| 12 | Sut byddwch chi'n canfod y cyfranogwyr? | Byddaf yn cyfweld ag athrawon yr adran gerddoriaeth oherwydd rwyf yn astudio'r effaith yng ngwersi cerddoriaeth. O ran yr holiadur, byddaf yn ei ddosbarthu i un dosbarth blwyddyn saith, ond dim ond y dysgwyr sydd wedi rhoi eu caniatad.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |

| | **Gwybodaeth i gyfranogwyr:** | BYDDAF | NA FYDDAF | AMH. |
|---|---|---|---|---|
| 13 | A fyddwch chi'n disgrifio'r prif weithdrefnau ymchwil i gyfranogwyr ymlaen llaw, fel eu bod yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 14 | A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr fod eu cyfranogiad yn wirfoddol? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 15 | A fyddwch chi'n cael cydsyniad ysgrifenedig gan y rhai sy'n cymryd rhan? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 16 | A fyddwch chi'n egluro wrth y cyfranogwyr na fydd gwrthod cymryd rhan yn yr ymchwil yn effeithio ar eu triniaeth neu'u haddysg (os yn berthnasol)? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 17 | Os yw'r ymchwil yn arsylwadol, a fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwyr am eu cydsyniad i gael eu harsylwi? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 18 | A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm? | ☒ | ☐ | ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 19 | Gyda holiaduron, a fyddwch chi'n rhoi'r dewis i gyfranogwyr i hepgor cwestiynau nad ydynt am eu hateb? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 20 | A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr yr ymdrinnir â'u data yn gwbl gyfrinachol ac, os cânt eu cyhoeddi, na ellir eu hadnabod fel eu data hwy? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 21 | A fyddwch yn cynnal ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr wedi iddynt gymryd rhan, mewn modd sy'n briodol i'r math o ymchwil a gynhaliwyd? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 22 | Os atebwyd NA FYDDAF i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, rhowch eglurhad | | | |
| | *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | | |

| | Gwybodaeth i gyfranogwyr: | BYDD | NA FYDD | AMH. |
|---|---|---|---|---|
| 24 | A fydd pob cyfranogwr yn cael ei dalu? | ☐ | ☒ | ☐ |
| 25 | A fydd offer trydanol arbenigol neu offer arall yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr? | ☐ | ☒ | ☐ |
| 26 | A fydd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i'r ymchwilydd neu'r Brifysgol yn deillio o'r astudiaeth hon? | ☐ | ☒ | ☐ |
| 27 | A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys camarwain cyfranogwyr yn fwriadol mewn unrhyw fodd, neu guddio nodau penodol yr astudiaeth yn rhannol neu'n llawn? | ☐ | ☒ | ☐ |
| 28 | Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn | | | |
| | *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | | |

**ADRAN H: Risgiau a Ragwelir**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Amlinellwch unrhyw risgiau a ragwelir a allai gael effaith niweidiol ar unrhyw rai o'r cyfranogwyr, yr ymchwilwyr a/neu'r Brifysgol, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â nhw.**<br><br>Os ydych wedi cwblhau asesiad risg llawn (er enghraifft fel sy'n ofynnol gan labordy, neu gydweithiwr ymchwil allanol) gallwch atodi'r asesiad hwnnw i'r ffurflen hon. | | |
| 1 | **A oes asesiad risg llawn wedi'i gwblhau a'i atodi?** | **Oes** | ☐ |
| | | **Nac oes** | ☒ |
| 2 | **Risgiau i'r cyfranogwyr**<br>Er enghraifft: iechyd a diogelwch penodol i'r sector, gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif | | |
| | Risg i'r cyfranogwyr:<br><br>1. Risg i niweidio perthynas staff a dysgwyr. | *Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r cyfranogwyr:*<br><br>1. Byddaf yn sicrhau bod nodau'r ymchwil yn glir i'r ysgol ac i'r cyfranogwyr. Cynlluniaf yr ymchwil er mwyn sicrhau bod cyn lleied o darfu a phosib ar wersi a'r diwrnod ysgol yn gyffredinol. Byddaf hefyd yn sicrhau anhysbysrwydd a chyfrinachedd ymatebion y dysgwyr ar ffurf yr holiadur a'r cyfweliad. Cynhaliaf y cyfweliad mewn amgylchedd cyfarwydd a thawel. Rhannaf gyda'r cyfwelydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | 2. Risg o'r cyfranogwyr yn teimlo pwysau i roi atebion sy'n plesio neu atebion rhagfarnllyd yn sgil safle'r ymchwilydd a pherthynas gyda'r dysgwyr / staff yr ysgol.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | y modd byddaf yn storio fy nodiadau o'r cyfweliad yn ddiogel. Tawelaf feddyliau'r cyfranogwyr ar sut byddaf yn storio'u data yn ddiogel a ni fydd yn cael eu defnyddio tu hwnt i'r gwaith ymchwil. Gofynnaf am gydseiniad y cyfranogwyr ar ôl derbyn caniatâd a rhoi cyfleoedd iddynt ymwrthod â bod yn rhan o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Sicrhaf fydd y cyfranogwyr i gyd yn cael y wybodaeth lawn am y gwaith ymchwil ac yn cael eu cefnogi yn ystod y broses ymchwil.<br><br>2. Byddaf yn gofyn am gydseiniad pob cyfranogwr cyn i mi cynnal cyfweliad, dosbarthu holiadur neu arsylwi ar y wers. Byddaf yn darparu gwybodaeth am nod yr ymchwil, anhysbysrwydd a chyfrinachedd eu hatebion. Byddaf hefyd yn datgan iddynt bod ddim ateb cywir neu anghywir i unrhyw gwestiwn, a ni fydd eu hatebion yn effeithio arno neu amharu ar eu gwaith ysgol.<br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |
| 3 | Os yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys pynciau sensitif neu bynciau sy'n peri gofid neu gywilydd (e.e. gweithgarwch rhywiol, defnydd o gyffuriau) neu faterion sy'n debygol o ddatgelu gwybodaeth sy'n galw am weithredu pellach (e.e. gweithgarwch troseddol), rhowch fanylion y gweithdrefnau i ddelio â'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth/gyngor (e.e. rhifau llinellau cymorth) a gynigir i'r cyfranogwyr. Sylwer, lle bo hynny'n berthnasol, y dylai gweithdrefnau cydsynio ei gwneud yn glir os darganfyddir rhywbeth sydd, neu a allai fod, yn anghyfreithlon yn ystod prosiect, ei bod yn bosibl y bydd angen ei ddatgelu i'r awdurdodau priodol | |
| | *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | |
| 4 | **Risgiau i'r ymchwilydd**<br>Er enghraifft: iechyd a diogelwch personol, niwed corfforol, gofid emosiynol, risg o gyhuddiad o niwed/ anwedduster, gwrthdaro buddiannau | |
| | Risg i'r ymchwilydd:<br><br>1. Cyhuddiad o ffugio data.<br><br>2. Cyfranogwyr yn teimlo gorfodaeth i gyfrannu. | *Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r ymchwilydd:*<br><br>1. Byddaf yn egluro i'r cyfranogwyr y ffordd y byddaf yn defnyddio ac yn storio'r data y maent yn datgan i mi. Hefyd byddaf yn esbonio iddynt y gallent cael mynediad i'r nodiadau yma ar unrhyw adeg, neu gallent newid eu meddwl am adael i mi ddefnyddio eu cyfraniad.<br><br>2. Byddaf yn esbonio i'r cyfranogwyr y gallent datgysylltu o'r archwiliad hon ar unrhyw adeg ac am unrhyw rheswm sydd yn bwysig iddynt. Ni fydd yn effeithio ar canlyniadau eu gwaith ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | 3. Cyfranogwyr yn tynnu'n ôl neu'n datgysylltu o'r gwaith ymchwil. | 3. Petai nifer sylweddol o ddysgwyr o'r dosbarth blwyddyn saith yn datgysylltu o gwblhau'r holiadur, byddaf yn ystyried cyfranogwyr eraill ac felly yn ailrecriwtio yn ôl yr angen. |
| | 4. Honiadau wrth gynnal cyfweliad. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | 4. Byddaf yn egluro cyfrinachedd y cyfweliad i'r cyfranogwr ac esbonio sut bydd fy nodiadau a'm recordiad yn cael eu storio' ddiogel ac yn anhysbys, ac yn cael ei dileu wrth unrhyw ffeil ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Byddaf hefyd yn cynnal y cyfweliad mewn man tawel a chyfrinachol. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |
| 5 | **Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad** Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data | |
| | Risg i'r Brifysgol: 1. Niweidio enw da'r Brifysgol. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | *Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r brifysgol:* 1. Byddaf yn sicrhau i ddilyn canllawiau cod moeseg a safonau ymchwil y Brifysgol a hefyd at Canllawiau BERA trwy gydol yr archwiliad hon. Byddaf yn gwirio fy methodoleg ymchwil gyda darlithydd y modiwl er mwyn sicrhau ei fod yn addas. Hefyd, byddaf yn cydymffurfio a Chod Ymddygiad y Cyngor Gweithlu Addysg. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |
| 6 | **Risgiau amgylcheddol** Er enghraifft: gollwng llygryddion yn ddamweiniol, niwed i ecosystemau lleol | |
| | Risg i'r amgylchedd: 1. Ôl-troed carbon with deithio. 2. Gorddefnydd o bapur. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | *Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r amgylchedd:* 1. Byddaf yn gwneud fy ngwaith ymchwil yn fy ysgol leoliad, ac felly ni fyddaf yn gorfod teithio'n ychwanegol i wahanol lleoliadau. 2. Byddaf yn ymdrechu i geisio ddefnyddio systemau electronig yn unig ar bob adeg er mwyn lleihau'r defnydd o bapur. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** | | | |
| | Os yw gweithgarwch ymchwil yn cynnwys plant neu oedolion agored i niwed, mae'n rhaid cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dod i unrhyw gysylltiad â'r cyfranogwyr hyn. | **OES** | **NAC OES** | **AMH.** |
| 7 | A oes angen Tystysgrif DBS gyfredol arnoch ar gyfer eich ymchwil? | ☒ | ☐ | ☐ |
| 8 | Os OES, nodwch rif y dystysgrif. Os nad yw rhif y dystysgrif ar gael, nodwch "I ddilyn"; yn yr achos hwn bydd unrhyw gymeradwyaeth foesegol yn amodol ar ddarparu'r rhif tystysgrif priodol. | I ddilyn. | | |

**ADRAN I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd**

| | |
|---|---|
| 1 | **Adborth** Pa ôl-drafodaeth ac adborth a ddarperir i'r cyfranogwyr, sut y gwneir hyn a phryd? |
| | Ar ddiwedd y gwaith ymchwil, byddaf yn diolch i bob cyfranogwr am eu hamser â'r wybodaeth a datganwyd yn ystod y broses ymchwilio. Byddaf yn trawsgrifio'r cyfweliad gyda'r athrawon ac yn |

| | |
|---|---|
| | paratoi crynodeb byr o ganfyddiadau'r cyfweliad a'r holiadur. Byddaf wedyn yn rhannu'r crynodeb yma gyda'r cyfranogwyr i gyd er mwyn gwirio eu bod nhw'n hapus gyda'r atebion ac i mi ei ddefnyddio yn fy ngwaith ymchwil. Os y dymunwn, bydd cyfle i'r cyfranogwyr gael copi o'r adroddiad terfynol hwn ar ddiwedd yr ymchwil.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |
| 2 | **Cydsyniad gwybodus**<br>Disgrifiwch y trefniadau i hysbysu darpar gyfranogwyr, cyn iddynt roi cydsyniad, o'r hyn mae'n ei olygu i gymryd rhan. Disgrifiwch y trefniadau i gyfranogwyr roi cydsyniad llawn cyn i'r gwaith o gasglu data ddechrau. Os yw'n amhriodol cael cydsyniad yn y modd hwn, eglurwch sut y ceir cydsyniad a sut y cofnodir hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol. |
| | Gan fod un o'r grwpiau ffocws (dysgwyr blwyddyn saith) o dan 18 oed, nid ydynt yn gallu rhoi eu caniatad gwirfoddol gwybodus i gymryd rhan yn yr ymchwil. Felly, byddaf yn gofyn i'w rhieni neu gwarchodwyr rhoi eu caniatad gwirfoddol, gwybodus er mwyn iddynt gallu cymryd rhan yn yr ymchwil ar ffurf llythyr caniatad. Bydd angen i'r rhieni/gwarchodwyr llenwi'r ffurflen ganiatad yma. Hefyd, bydd y llythyron yn cynnwys datganiad GDPR ynghyd a manylion llawn am nod y gwaith ymchwil.<br><br>Bydd y daflen wybodaeth/llythyr cydsynio y rhieni/gwarcheidwaid yn cynnwys y canlynol:<br>1. Teitl y prosiect<br>2. Enw a manylion cyswllt yr ymchwilydd<br>3. Ymwadiad eu bod wedi derbyn gwybodaeth am yr ymchwil ac wedi cael cyfle i'w drafod a gofyn unrhyw gwestiynau<br>4. Ymwadiad mai cyfranogi'n wirfoddol a wnaiff y plant a bod modd iddynt dynnu'n ôl ar unrhyw adeg a gwrthod i'r ymchwilydd ddefnyddio'r data os dymunir<br>5. Sut y defnyddir y wybodaeth (h.y. mewn aseiniad prifysgol)<br>6. Ymwadiad y cedwir yr holl wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddi-enw<br>7. Caniatâd i'w plentyn/plant i gymryd rhan<br>8. Lle i lofnodi a nodi'r dyddiad<br><br>Trafodir ar lafar gyda'r disgyblion am beth yw pwrpas yr ymchwil, gan esbonio y gallent datgysylltu o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw rheswm sydd gennynt, a bod unrhyw wybodaeth a ddatganwyd yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol. Bydd hyn yn ei tro yn sicrhau fy mod i wedi cael cydsyniad y cyfranogwyr yma. Byddaf yn sicrhau bod lle iddynt lofnodi ar y daflen i nodi eu cydsyniad. Byddaf yn dilyn canllawiau International Charter for Ethical Research Involving Children, 2013 (https://childethics.com/charter/. Hefyd, byddaf yn cyfeirio at bolisi Amddiffyn Plant yr Ysgol Leoliad er mwyn sicrhau fy mod fel ymchwilydd yn dilyn pob cam i ddiogelu, amddiffyn a lleihau risg i bob cyfranogwr.<br><br>Yn ystod y broses cwblhau'r holiadur, byddaf yn gofyn am eu cydsyniad parhaus, er mwyn sicrhau eu bod nhw dal yn hapus i gymryd rhan ac i rannu eu barnau/canfyddiadau.<br>Ni fyddaf yn cynnal unrhyw rhan o'r gwaith ymchwil gydag unrhyw ddysgwr heb eu cydsyniad personol neu caniatad eu rhieni/gwarchodwyr.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |
| 3 | **Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd**<br>Nodwch sut y sicrheir cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr mewn unrhyw gynnyrch. Os na chynigir anhysbysrwydd, eglurwch pam. |
| | Trwy gydol y prosiect yma, byddaf yn cadw'r holl gyfranogwyr yn ddienw ac yn anhysbys trwy ddefnyddio dynodwr unigryw i bob un. Byddaf yn storio'r holl ddata o'r cyfweliadau, holiaduron ac arsylwad ar 'OneDrive' yn y 'cwmwl' brifysgol a bydd cyfrinair ar y ffeil yma, dim ond y fi bydd yn ei adnabod. Ar ôl i'r prosiect ddod i ben, byddaf yn dileu'r holl ddata. Bydd hawl gan pob cyfranogwr i weld unrhyw ddata amdanynt a hefyd bydd yr hawl ganddynt i dynnu'n ôl unrhyw ddata ar unrhyw adeg, a byddaf y neu dileu yn syth are u cais. O ganlyniad i hyn, ni fyddaf yn cael ei ddefnyddio yn y prosiect. |

| | |
|---|---|
| | Byddaf yn cadw'r llythyron caniatad gwybodus a lofnodir gan rieni/gwarchodwyr ar ffurf papur mewn storfa dan glo. Ni fydd gan unrhyw un heblaw am fy hun mynediad at y ddata hon.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* |

**ADRAN J: Diogelu a Storio Data**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys data personol (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018)? | **YDY** | **NAC YDY** |
| 1 | *Mae **"data personol"** yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun data'). Mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw. Mae unrhyw recordiadau fideo neu sain o gyfranogwyr yn cael eu hystyried yn ddata personol.* | ☐ ✓ | ☐ |
| | Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn: | | |
| 2 | Byddaf yn cyfweld â'r athrawon, felly byddaf yn gwybod pwy ydyn nhw, ond yn y pen draw byddaf yn troi'r data yn anhysbys wrth ei ddienwi.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| | A yw'n cynnwys data categori arbennig (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)? | **YDY** | **NAC YDY** |
| 3 | *Mae **"Data categori arbennig"** yn golygu data personol sensitif sy'n cynnwys gwybodaeth am y testunau data -*<br>*(a) tras hiliol neu ethnig,*<br>*(b) safbwyntiau gwleidyddol,*<br>*(c) credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg,*<br>*(d) aelodaeth o undeb llafur (yn ôl ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992),*<br>*(e) iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol,*<br>*(f) bywyd rhywiol,*<br>*(g) geneteg,*<br>*(h) data biometrig (a ddefnyddir i ddibenion adnabod),* | ☐ | ☐ ✓ |
| | Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data categori arbennig ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn: | | |
| 4 | *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | A fydd data o'r gweithgarwch ymchwil (data a gasglwyd, drafftiau'r traethawd ymchwil, neu ddeunyddiau i'w cyhoeddi) yn cael eu storio yn unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol: | **BYDD** | **NA FYDD** |
| 5 | Ffeiliau llaw (h.y. ar bapur)? | ☐ | ☒ |
| 6 | Cyfrifiaduron y brifysgol? | ☐ | ☒ |
| 7 | Cyfrifiaduron cwmnïau preifat? | ☐ | ☒ |
| 8 | Cyfrifiaduron cartref neu bersonol eraill? | ☐ | ☒ |
| 9 | Gliniaduron / CDs / disgyrwyr cludadwy / cofbinnau? | ☐ | ☒ |
| 10 | Storio yn y "cwmwl" neu wefannau? | ☒ | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Arall – noder: | ☐ | ☒ |
| 12 | Yn achos yr holl ddata a storir, eglurwch y mesurau sydd ar waith i sicrhau diogelwch y data a gasglwyd, cyfrinachedd y data, gan gynnwys manylion gweithdrefnau gwneud copi wrth gefn, diogelu â chyfrinair, amgryptio, gwneud yn ddienw a rhoi dan ffugenw: | | |
| | Byddaf yn sicrhau diogelwch y ddata a gasglwyd wrth ei storio mewn ffeil yn y cwmwl yn unig, a bydd wedi'i ddiogelu â chyfrinair bydd dim ond gennyf fi. Hefyd, byddaf yn sicrhau bod dim enwau unrhyw dysgwyr nac oedolion yn cael ei ddangos ar unrhyw rhan o'r data er mwyn ei gadw'n ddienw.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Diogelu Data** | | |
| | A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol: | **BYDD** | **NA FYDD** |
| 13 | Trosglwyddo data electronig mewn unrhyw ffurf? | ☐ | ☒ |
| 14 | Rhannu data ag eraill yn y Brifysgol y tu allan i'r tîm ymchwil uniongyrchol? | ☐ | ☒ |
| 15 | Rhannu data â sefydliadau eraill? | ☐ | ☒ |
| 16 | Allforio data y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu fewnforio data o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig? | ☐ | ☒ |
| 17 | Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol? | ☐ | ☒ |
| 18 | Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion? | ☐ | ☒ |
| 19 | Defnyddio system rheoli data? | ☐ | ☒ |
| 20 | Archifo data? | ☐ | ☒ |
| 21 | Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn, gan egluro sut y caiff hyn ei wneud yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data (2018) (ac unrhyw drefn ryngwladol gyfatebol, lle bo'n briodol): | | |
| | *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| 22 | Rhestrwch bawb fydd â hawl i weld y data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil: | | |
| | Phoebe Nancy Morgan.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| 23 | Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data: | | |
| | Phoebe Nancy Morgan.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| 24 | Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys y mesurau diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu'r data, ble caiff y data eu storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael eu harchifo – os felly, sut ac os na, pam. | | |
| | Byddaf yn sicrhau diogelwch y ddata a gasglwyd wrth ei storio mewn ffeil yn y cwmwl yn unig, a bydd wedi'i ddiogelu â chyfrinair bydd dim ond gennyf fi. Hefyd, byddaf yn sicrhau bod dim enwau unrhyw dysgwyr nac oedolion yn cael ei ddangos ar unrhyw rhan o'r data er mwyn ei gadw'n ddienw. Byddaf yn storio'r data tan ar ôl i mi gael canlyniadau'r modiwl yn ôl, ac wedyn ei ddinistrio.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25 | Nodwch a fydd eich data'n cael ei storio yng Nghadwrfa Data Ymchwil PCYDDS (gweler https://researchdata.uwtsd.ac.uk/ ). Os felly, eglurwch. *(Yn fwyaf perthnasol i staff academaidd)* | | |
| | Storio'r data yn y 'cwmwl', mynediad i fi yn unig.<br><br>*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)* | | |
| 26 | Cadarnhewch eich bod wedi darllen cyfarwyddyd PCYDDS ar reoli data (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/) | **YDW** | ☒ |
| 27 | Cadarnhewch eich bod yn ymwybodol bod angen i chi gadw'r holl ddata tan ar ôl i'ch ymchwil ddod i ben neu ddiwedd eich cyllid | **YDW** | ☒ |

**ADRAN K: Datganiad**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio nodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwymiadau innau a hawliau'r cyfranogwyr.<br><br>Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwymo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan:. https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/ | | |
| 1 | **Llofnod yr Ymgeisydd:** | P.N.Morgan | **Dyddiad: 14/03/24** |

***Ar gyfer Cyflwyniadau MYFYRWYR:***

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr: | | **Dyddiad:** |
| 3 | Llofnod: | | |

***Ar gyfer Cyflwyniadau STAFF:***

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Cyfarwyddwr Academaidd/ Deon Cynorthwyol: | | **Dyddiad:** |
| 5 | Llofnod: | | |

**Rhestr Wirio:** Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

| | |
|---|---|
| ☒ | Rwyf wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen. |
| ☒ | Rwyf wedi cwblhau **HOLL ADRANNAU PERTHNASOL** y ffurflen yn llawn. |
| ☒ | Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor. |
| ☐ | Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol (**lle bo'n briodol**). |
| ☐ | Rwyf wedi atodi asesiad risg llawn (lle bo'n briodol) *TICIWCH HWN DIM OND OS YDYCH WEDI* ***ATODI ASESIAD RISG LLAWN*** |
| ☒ | Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol. |
| ☒ | Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Cyfarwyddwr Academaidd. |

| |
|---|
| **MYFYRWYR YMCHWIL YN UNIG**<br>Ar ôl ei chwblhau, cyflwynwch y ffurflen hon trwy'r **Porth Coleg Doethurol ar MyTSD** (https://mytsd.uwtsd.ac.uk). |
| **MYFYRWYR YMCHWIL A STAFF YN UNIG**<br>Wrth brosesu'r cais hwn rhaid cyflwyno pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais yn ysgrifenedig a'i hanfon drwy e-bost i pgresearch@uwtsd.ac.uk, gyda'r teitl 'Cymeradwyaeth Foesegol' a'ch enw i ddilyn. |
| Dylai **MYFYRWYR AR RAGLENNI ISRADDEDIG NEU RAGLENNI MEISTR A ADDYSGIR** gyflwyno'r ffurflen hon (a chael y canlyniad) trwy systemau a eglurir i chi gan y goruchwyliwr/ arweinydd modwl. |

2. Llythyr Gwybodaeth/Cydsynio Rhieni

# FFURFLEN WYBODAETH

**TEITL Y PROSIECT: Beth yw canfyddiadau blwyddyn 8 ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi?**

Annwyl Rhiant / Warcheidwad:

Fy enw i yw Phoebe Morgan ac rwy'n astudio am gymhwyster TAR yn Yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ar hyn o bryd, rydw i'n ddarpar athrawes Cerddoriaeth yn Ysgol [redacted]

Hoffwn wahodd eich plentyn i gymryd rhan yn fy mhrosiect ymchwil. Teitl y prosiect yw 'Beth yw canfyddiadau blwyddyn 8 ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eu gwersi?'. Trwy gyfranogiad eich plentyn, rwy'n gobeithio canfod a ydy cerddoriaeth gefndirol yn gwneud gwahaniaeth yn ymgysylltiad ac ymddygiad dysgwyr yn ystod eu gwersi.

Byddaf yn arsylwi ar un o wersi Celf eich plentyn, gan gymryd nodiadau o sut y maent yn ymateb i'r defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn y wers. Yna, mi fyddaf yn darparu holiadur i'r dysgwyr yn y dosbarth a fydd yn gofyn iddynt am eu barn ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn y wers.

Bydd pob enw yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol a dim ond minnau a'm partner ymchwil fydd yn ei adnabod. Mae cyfranogiad eich plentyn yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol felly gallwch chi neu'ch plentyn dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg. Bydd gofyn i'ch plentyn roi ei gydsyniad cyn dechrau'r astudiaeth yn ogystal.

Ar ôl dadansoddi'r data a gafwyd o'r arsylwadau gwersi a'r holiadur, byddwn yn falch o roi copi o'r canfyddiadau i chi ar eich cais. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu trafod mewn aseiniad Prifysgol a fydd yn cyfrannu at fy nghwrs TAR. Caiff canlyniadau'r astudiaeth hon eu storio ar fy nghliniadur a chaiff yr holl ddata crai eu dinistrio unwaith y bydd yr asesiad wedi'i farcio.

Diolch i chi ymlaen llaw am eich amser. Os oes unrhyw gwestiynau'n codi, mae croeso i chi gysylltu â mi ar unrhyw bryd.

Yn gywir,

Phoebe Morgan

# INFORMATION SHEET

**PROJECT TITLE: What are Year 8's perceptions of the use of background music in their lessons?**

Dear Parent / Guardian,

My name is Phoebe Morgan and I am studying for a PGCE at Yr Athrofa, University of Wales Trinity Saint David. I am currently a student Music teacher within Ysgol [redacted].

I would like to invite your child to participate in my research project. The title of the project is 'What are Year 8's perceptions of the use of background music in their lessons?'. Through your child's participation, I hope to ascertain whether the use of background music in lessons has any effect on learners' engagement or behaviour.

I will observe one of your child's Art classes, taking notes on how they respond to the use of background music in the lesson. I will then provide a questionnaire to the learners in the class which will ask them for their opinion on the use of background music in the lesson.

All names will be kept strictly confidential and will only be known by myself and my research partner. Your child's participation in this study is completely voluntary so you or your child can withdraw from the study at any stage. Your child will also be asked to give their assent before the beginning of the study.

After careful and precise analysis of the data obtained from the lesson observation and questionnaire, I would be happy to provide you with a copy of the findings at your request. The results of the research will be discussed in a university assignment that will contribute to my PGCE course. The results of this study will be stored on my laptop and all raw data will be destroyed once the assessment has been marked.

I thank you in advance for your time. If any questions do arise, feel free to contact me at your convenience.

Yours sincerely,

Phoebe Morgan

3. Ffurflen cydsynio i’r rhieni

# Ffurflen Cydsynio/Consent Form

A wnewch chi lenwi'r ffurflen yma os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi eich cydsyniad neu beidio i'ch plentyn cymryd rhan yn yr astudiaeth yma./Would you please fill out this form to either give consent or not to give consent for your child to take part in this study.

Eich enw/Your name

Short answer text

Enw eich plentyn/Your child's name

Short answer text

Dosbarth eich plentyn/Your child's class

Short answer text

Cytunaf fy mod wedi darllen a deall y llythyr gwybodaeth am yr astudiaeth./I agree that I have read and understood the information letter about the study.

- ◯ Cytunaf/I agree

Ydych chi'n rhoi eich cydsyniad i'ch plentyn i gymryd rhan yn yr astudiaeth yma?/Do you give your consent for your child to take part in this study?

- ◯ Ydw/I do
- ◯ Nac ydw/I do not

Dyddiad/Date

Month, day, year

4. Holiadur i'r dysgwyr

# Holiadur ar y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eich gwersi

Cyn i chi ddechrau, mae'n bwysig eich bod yn deall nid yw eich cyfranogiad yn yr astudiaeth yma yn orfodol o gwbl. Nid oes rhaid i chi lenwi'r holiadur yma ac mae gennych chi'r hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg os ydych chi eisiau.

Ydych chi'n teimlo bod y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eich gwersi yn helpu chi i ymgysylltu?

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw

Ydych chi'n teimlo bod y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eich gwersi yn helpu chi i ymddwyn yn well?

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw

Ydych chi'n teimlo bod y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eich gwersi yn helpu chi i ymlacio?

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw

Ydy'r gerddoriaeth gefndirol yn gwneud i chi deimlo'n flin?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac ydy

Ydych chi'n hoffi'r defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eich gwersi?

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw

Beth yw eich barn chi am y defnydd o gerddoriaeth gefndirol yn eich gwersi?

Your answer

5. Taflen arsylwi

Llofnod cydsyniad yr athro:
Dyddiad:

| |
|---|
| Nifer o ddysgwyr yn y dobarth:<br><br>Nod y wers:<br><br>Tasg y wers:<br><br>Cerddoriaeth a ddefnyddir: |

| |
|---|
| Ymgysylltiad ac ymddygiad ar ddechrau'r wers (cyn i'r gerddoriaeth cael ei chwarae):<br><br>Ymgysylltiad ac ymddygiad yng nghanol y wers (wrth i'r gerddoriaeth gefndirol dechrau):<br><br>Ymgysylltiad ac ymddygiad ar ddiwedd y wers (ar ôl bod yn gwrando ar y gerddoriaeth gefndirol):<br><br>Unrhyw nodweddion diddorol arall: |